

Darparu Gwasanaethau Unedau Mân Anafiadau Dogfen Briffio

Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen hon er mwyn:

- Darparu gwybodaeth am wasanaethau unedau mân anafiadau yn y Bwrdd Iechyd
- Rhoi cyngor ar faterion diweddar yn y gwasanaeth
- Nodi cynigion ar gyfer addasu oriau gweithredu rhai o'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn gwasanaethau unedau mân anafiadau yn cael cyfle i ddeall y cynigion a rhoi gwybod i ni beth yw eu barn.

Cefndir

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gyfrifol am yr holl wasanaethau iechyd ar draws hen sir Gwent (gan gynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Casnewydd, Caerffili, Trefynwy, Torfaen a Blaenau Gwent) a rhan o boblogaeth de Powys.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal nifer o Unedau Mân Anafiadau sy'n rhan o'r gwasanaeth gofal brys cyffredinol. Unedau dan arweiniad nyrsys yw Unedau Mân Anafiadau sy'n trin anafiadau nad ydynt yn peryglu bywyd nac yn peryglu aelodau'r corff. Maent yn rhan o fodel gofal cyffredinol lle mae Ysbyty Athrofaol y Faenor (GUH) ger Cwmbrân yn darparu triniaeth frys ac mae'r rhwydwaith ysbytai cyffredinol lleol (eLGH) uwch yn darparu gwasanaethau mân anafiadau.

Mae'r gwasanaeth MIU yn cael ei arwain a'i ddarparu gan Ymarferwyr Nyrsio Brys arbenigol (ENPs), sy'n gallu gweithio'n annibynnol a thrin amrywiaeth o anafiadau oedolion a phediatreg ar bob safle MIU.

Gweithredu'r Gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaeth MIU ar draws ei dri eLGH ac un ysbyty cymunedol fel a ganlyn:

Ysbyty Brenhinol Gwent (RGH)	Ar agor 24 awr, saith diwrnod yr wythnos
Ysbyty Nevill Hall (NHH)	Ar agor 24 awr, saith diwrnod yr wythnos
Ysbyty Ystrad Fawr (YYF)	Ar agor am 18 awr rhwng 7.00am ac 1.00am, saith diwrnod yr wythnos (wedi'i leihau o 24/7 yn ystod pandemig COVID)
Ysbyty Aneurin Bevan (YAB)	Ar agor am 10 awr rhwng 9.00am a 7.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc)

Mae'r Unedau Mân Anafiadau yn derbyn tua 50% o'r holl gleifion gofal brys ac argyfwng ar draws y Bwrdd Iechyd.

Materion Diweddar sy'n Effeithio ar y Gwasanaeth


Mae dau fater allweddol yn effeithio ar y gwasanaeth mân anafiadau ar hyn o bryd, sef:

Patrymau galw am y gwasanaeth

Mae'r siart canlynol yn dangos ymweliadau dyddiol ar gyfer pob safle Unedau Mân Anafiadau rhwng 1 Ebrill 2022 a 14 Awst 2023:

- Mae MIU RGH yn gweld rhwng 75 a 140 o gleifion bob dydd (neu bedwar claf yr awr yn seiliedig ar wasanaeth 24/7)
- Mae MIU YYF yn gweld rhwng 51 a 90 o gleifion bob dydd (neu dri chlaf yr awr yn seiliedig ar wasanaeth dyddiol rhwng 07:00 a 01:00)
- Mae MIU NHH yn gweld rhwng 36 a 68 o gleifion bob dydd (neu ddau glaf yr awr yn seiliedig ar wasanaeth 24/7)
- Mae MIU YAB yn gweld rhwng 18 a 50 o gleifion bob dydd (neu ddau glaf yr awr yn seiliedig ar wasanaeth yn ystod yr wythnos rhwng 09:00 a 19:00).

MIU attendances from 1 April 2022 to 14 August 2023



Mae gwerthusiad diweddar o'r galw am Unedau Mân Anafiadau wedi nodi patrymau gweithgarwch allweddol ar draws pob safle, gan gynnwys:

- Patrymau gweithgarwch tymhorol, gyda brigiad yn gynnar yn yr haf ar bob safle
- Patrymau gweithgarwch dyddiol, gyda brigiad ar ddyddiau Llun ym mhob safle
- Patrymau gweithgarwch fesul awr, gyda brigiad canol y bore a gostyngiad graddol yn y galw tan oriau cau neu tua hanner nos ar bob safle.

Amlygodd yr ymarfer hwn anghydbwysedd sylweddol rhwng oriau agor a'r galw gan gleifion ar draws Unedau Mân Anafiadau. Er enghraifft, ychydig iawn o gleifion sy'n mynychu MIU NHH rhwng 1.00am a 7.00am. Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, roedd 400 wedi ymweld â MIU NHH (tua un claf bob nos) yn ystod yr oriau hyn. Ar y llaw arall, roedd 1,530 wedi ymweld â MIU RGH (tua phedwar claf y noson) yn ystod yr un oriau.

Defnyddio'r gweithlu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwerthfawrogi ei weithlu ENP medrus iawn. I gydnabod y galw isel iawn am gleifion dros nos yn MIU NHH, mae'n bwysig sicrhau bod yr adnodd gwerthfawr hwn yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

Cynllunio ar gyfer Gwasanaeth y Dyfodol

Mewn ymateb i'r canfyddiadau uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried nifer o opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Y nod oedd sicrhau bod y galw a'r capasiti yn cael eu cyfateb yn y ffordd orau, a datblygu'r model mwyaf cydnerth a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Y dewis a ffafrir yw gwneud y trefniadau dros dro presennol yn YYF (yn agored rhwng 7.00am ac 1.00am, saith diwrnod yr wythnos) yn barhaol, a chyflwyno'r un patrwm oriau agor yn NHH. Pe bai'n cael ei fabwysiadu, byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu fel y nodir isod:

RGH	Ar agor 24 awr, saith diwrnod yr wythnos
NHH	Ar agor am 18 awr bob dydd rhwng 7.00am ac 1.00am saith diwrnod yr wythnos
YYF	Ar agor am 18 awr bob dydd rhwng 7.00am ac 1.00am saith diwrnod yr wythnos

Byddai'r gwasanaethau'n aros ar yr holl safleoedd presennol gyda MIU 24 awr yn RGH. Ystyrir bod yr opsiwn hwn yn darparu'r model gwasanaeth mwyaf effeithiol, effeithlon a chynaliadwy ar gyfer ein Hunedau Mân Anafiadau drwy gyfateb oriau gwasanaeth â defnydd cleifion.

Ceisio Barn y Cyhoedd

Cyn gwneud penderfyniad terfynol, mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, staff, gwasanaethau cefnogi, grwpiau gwirfoddol a'r holl randdeiliaid eraill. Mae'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb yn y gwasanaeth yn cael cyfle i:

- Ddeall y cynigion
- Rhoi adborth llawn
- Codi unrhyw bryderon neu ymholiadau er mwyn ymateb iddynt.

Bydd eich barn yn darparu gwybodaeth werthfawr i lywio penderfyniadau terfynol a manylion y gwasanaeth, ac i sicrhau bod unrhyw effaith ar ddefnyddwyr yn cael ei hasesu a'i lleihau.

Sut bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud hyn?

Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fynegi eu barn, mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau cyfnod o deuddeg wythnos* o ymgysylltu, gan gynnwys y canlynol:

- Arddangos gwybodaeth yn amlwg mewn meysydd gwasanaeth, gan gynnwys posterï ac arddangosfeydd
- Ffurflenni gwybodaeth / arolwg wedi'u darparu ar gyfer pobl sy'n mynychu Unedau Mân Anafiadau
- Tudalen wybodaeth benodol ar wefan y Bwrdd Iechyd, i gynnwys cwestiynau cyffredin, mynediad at arolygon cleifion (gyda'r opsiwn o ddefnyddio fersiynau papur), pwyntiau cyswllt a'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i gynlluniau fynd rhagddynt
- Sesiynau gwybodaeth gyhoeddus / digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cyflwyniadau i randdeiliaid

- Cyfarfodydd rheoli ar gyfer rhanddeiliaid mewnol y GIG
- Gweithio gyda'r tîm cynhwysiant iechyd.

*Mae'n bwysig nodi ein bod yn adolygu'r ymgysylltiad cyhoeddus hwn yn rheolaidd i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i rannu eu hadborth ar y cynigion. Felly, rydym wedi ymestyn y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd am bedair wythnos arall.

Felly, bwriedir cynnal y cyfnod ymgysylltu o **9.00yb ar Ddydd Llun 11 Medi 2023** tan **5.00yp ar Ddydd Gwener 1 Rhagfyr 2023**.

Sut gall pobl fynegi eu barn?

Gellir rhannu safbwyntiau drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- Llenwch ein harolwg sydd ar gael drwy URL gwefan y Bwrdd Iechyd neu drwy'r cod QR isod

URL: <https://bit.ly/45U1CAS>



- Ewch i sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd, lle gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cynnig a gofyn unrhyw gwestiynau i staff y Bwrdd Iechyd / Uned Mân Anafiadau. Mae'r rhain wedi'u trefnu fel a ganlyn:

Dydd Llun 18 Medi 5.30pm – 7.30pm	Ysbyty Nevill Hall Y Fenni (Uned Mân Anafiadau)
--	--

Dydd Mercher 20 Medi 2.00pm – 4.00pm	Caffi Cymunedol yr Hen Lyfrgell, Caerffili
Dydd Mercher 27 Medi 5.30pm – 7.00pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Dydd Gwener 29 Medi 10.00am – 12.00 (hanner dydd)	Marchnad y Fenni * 61 Cross St, Y Fenni NP7 5EH
Dydd Llun 2 Hydref 2.00pm – 3.30pm	Ar-lein drwy Microsoft Teams
Dydd Mawrth 3 Hydref 5.30pm – 7.30pm	Ysbyty Ystrad Fawr Ystrad Mynach (Lobi Liff y Llawr Cyntaf)

*Gan ddysgu o'n sesiynau ymgysylltu blaenorol, rydym wedi archebu lle ychwanegol ar gyfer y sesiwn hon yn yr Ystafell Gymunedol yn Llyfrgell y Fenni uwchben Marchnad y Fenni.

Am adnoddau gwybodaeth ac i gwblhau copïau papur o'r arolwg, ewch i'r sesiwn ym Marchnad y Fenni. I gael sgysiau addysgiadol, manwl ac 1-1 gyda'r Uwch Dîm Rheoli am y cynigion, ewch i'r sesiwn yn yr Ystafell Gymunedol yn Llyfrgell y Fenni.

- Cysylltwch â ni drwy e-bost gydag unrhyw sylwadau (neu os hoffech ymuno ag un o'r sesiynau ar-lein uchod) yn abb.engagement@wales.nhs.uk
- Cyfrannwch at unrhyw sgysiau drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd e.e. **Facebook neu X (Twitter yn flaenorol).**
- Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n trefnu sesiynau ymgysylltu cyhoeddus mwy ffurfiol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd a fydd yn cael eu cyhoeddu (ar-lein trwy ein tudalennau cymdeithasol, ar ein gwefan, e-bost at ein rhanddeiliaid a thrwy bosteri a ddangosir yn y lleoliadau lle bydd y sesiynau ymgysylltu yn cael eu cynnal a'r ardal gyfagos leol) cyn gynted ag y cânt eu cadarnhau.
- Yn ogystal â'r sesiynau ymgysylltu ffurfiol, mae gennym hefyd ein rhaglen ymgysylltu gymunedol arferol, y gellir dod o hyd i'w manylion drwy'r ddolen hon: [Ym mhle byddwch chi'n dod o hyd i ni - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(gig.cymru\)](#) Yn y sesiynau ymgysylltu cymunedol hyn dros yr wythnosau nesaf, bydd gan staff cyfathrebu ac ymgysylltu gwybodaeth am y cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau unedau mân anafiadau a chopïau papur o'r arolwg gyda nhw i bobl eu cwblhau yno os hoffent.

- Mae gennym gopiâu papur o'r arolwg a'r blychau post hefyd yn Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr. Gellir dod o hyd i'r rhain ym mhrif dderbynfa pob ysbyty a'r ddwy Uned Mân Anafiadau.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfnod ymgysylltu?

Bydd yr holl ymatebion a safbwyntiau'n cael eu casglu a bydd adroddiad ymgysylltu'n cael ei baratoi. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu â Rhanbarth Llais Gwent (y corff sydd wedi disodli'r Cyngorau Iechyd Cymuned) i nodi: a oes modd gwneud penderfyniad terfynol ynghylch darparu gwasanaethau mân anafiadau yn y dyfodol; neu a oes angen cymryd camau pellach.

Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda Llais, efallai y byddwn yn dymuno dechrau cyfnod o ymgynghori ffurfiol. Os byddwn yn dechrau ymgynghoriad ffurfiol, byddwn unwaith eto'n gofyn am eich barn.